**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (174)**
**Dydd Mercher, 7 Rhagfyr 2005**

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

............................

**Eitem 1 -** Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

**Eitem 2 -** Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Eitem 3 -** Datganiad Busnes drafft diwygiedig.

**Eitem 4 -** Cynnig/Cynigion i: sefydlu'r ymchwiliad cyhoeddus; penodi cadeirydd yr ymchwiliad; dirprwyo'r swyddogaethau sy'n weddill o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005 i Brif Weinidog Cymru; a nodi adroddiad y Pwyllgor ar yr Ymchwiliad i'r Achosion E.coli yng Nghymru

**Eitem 5 -** Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2005

**Eitem 6** - Dadl ar y Gyllideb Derfynol

**Eitem 7** - Y Ddadl Fer - NDM2746 Mike German (Dwyrain De Cymru): Cam-drin yn y Cartref – Hunllef y Nadolig.

............................

**Eitem 1 - Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**

............................

**Eitem 2 - Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes**

.............................

**Eitem 3 - Datganiad Busnes drafft diwygiedig.**

.............................

**Eitem 4 - Cynnig/Cynigion i: sefydlu'r ymchwiliad cyhoeddus; penodi cadeirydd yr ymchwiliad; dirprwyo'r swyddogaethau sy'n weddill o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005 i Brif Weinidog Cymru; a nodi adroddiad y Pwyllgor ar yr Ymchwiliad i'r Achosion E. coli yng Nghymru**

**NDM2747 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor ar yr Ymchwiliad i'r Achosion E.coli yng Nghymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Tachwedd 2005.

Dogfennau Ategol
Adroddiad Y Pwyllgor Ar Yr Ymchwiliad I'r Achosion E.Coli Yng Nghymru

**NDM2748 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Gan weithredu'n unol â'i bwerau dan adran 1 Deddf Ymchwiliadau 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal ymchwiliad i'r achosion E.coli 0157 yn Ne Cymru ym mis Medi 2005;

2. Yn argymell y dylai cylch gorchwyl yr ymchwiliad fod fel a ganlyn:
a) cynnal ymchwiliad i'r amgylchiadau a arweiniodd at yr achosion E.coli 0157 yn Ne Cymru ym mis Medi 2005 ac i'r ffordd yr ymdriniwyd â'r haint; a

b) ystyried y goblygiadau ar gyfer y dyfodol a gwneud argymhellion yn unol â hynny;

3. Yn argymell penodi'r Athro Hugh Pennington i Gadeirio'r ymchwiliad; a

4. Yn penderfynu y dylid dirprwyo swyddogaethau'r Cynulliad dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005 sy'n ymwneud â'r ymchwiliad uchod ac nas arferir drwy'r cynnig hwn, i'r Prif Weinidog yn unol ag adran 62 (1) (b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, ac eithrio'r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw.

Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran gweithredu'r swyddogaethau uchod eu lleihau.

*Ceir copi o Ddeddf Ymchwiliadau 2005 ar y Rhyngrwyd yn y cyswllt hwn: http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2005/20050012.htm*

..............................

**Eitem 5 - Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2005**

**NDM2745 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu dan adran 62 (1) (b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog y Cynulliad, holl swyddogaethau Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2005 (SI 2005/1958) ac eithrio'r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw.

Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran gweithredu'r swyddogaethau uchod eu lleihau.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan ei gwneud yn hysbys y byddant yn cael eu dirprwyo ymhellach i'r Gweinidog Cynulliad priodol ac i staff, fel y bo hynny'n briodol.

*Ceir copi o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2005 ar y rhyngrwyd yn y cyswllt hwn: http://www.opsi.gov.uk/si/si2005/20051958.htm*

..............................

## Eitem 6 - Dadl ar y Gyllideb Derfynol

**NDM2749 Sue Essex (Gogledd Caerdydd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 21.4, yn mabwysiadu'r gyllideb derfynol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2006- 2007, 2007-2008 a 2008-2009, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 30 Tachwedd 2005.

Dogfennau Ategol
Datganiad Cyllid y Cynulliad 2006-2007

**...........................**

**Eitem 7 - Y Ddadl Fer - NDM2746 Mike German (Dwyrain De Cymru): Cam-drin yn y Cartref – Hunllef y Nadolig.**

**...........................**

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

**.....................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 10 Ionawr 2006**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**